# Ymholiadau myfyrwyr am e-gyflwyno

Mae myfyrwyr weithiau'n profi anawsterau wrth gyflwyno aseiniadau yn electronig gan ddefnyddio Turnitin neu Blackboard. Mewn rhai achosion, efallai na fyddwch chi'n gallu cyflwyno neu efallai y byddwch chi'n darganfod yn ddiweddarach nad yw'ch aseiniad wedi'i uwchlwytho'n gywir.

Deallwn y gall y sefyllfaoedd hyn beri pryder, yn enwedig yn agos at ddyddiadau cyflwyno. Mae'r canllawiau hyn yn nodi proses gyson ar gyfer ymdrin ag ymholiadau am gyflwyniadau, gan sicrhau bod ymholiadau am gyflwyniadau yn cael eu trin yn deg ac mewn modd amserol. Gallwch gael cymorth gan eich tiwtor personol.

Os oes gennych unrhyw broblemau wrth i chi gyflwyno, cadwch sgrinluniau o unrhyw negeseuon gwall neu rybudd a welwch. Gallai'r rhain ein helpu i ymdrin â'ch ymholiad. Hefyd, edrychwch ar y Cyngor i Fyfyrwyr ar ddiwedd y ddogfen hon. Ceir mwy o wybodaeth ar gyflwyno yn ein Cwestiynau Cyffredin.

## Gwneud ymholiad

Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn ymateb i ymholiadau'n brydlon ac yn gyson:

- Dylai myfyrwyr godi unrhyw bryderon am e-gyflwyniadau gyda chydlynydd y modiwl a hefyd e-bostio cyfeiriad e-bost eu hadran.
- Os ydych chi'n cysylltu ag Addysg Ddigidol yn uniongyrchol, byddwn yn gofyn i chi gysylltu â chyfeiriad e-bost eich adran am gymorth ac arweiniad.

## Cynnal Chwiliad Gweithgaredd

Gall yr holl staff edrych ar y Cofnod Gweithgaredd yn Blackboard. Mae gwybodaeth am sut i'w ddefnyddio ar gael o safle cymorth Blackboard. Noder mai dim ond am 120 diwrnod y cedwir cofnodion.

Os oes angen gwybodaeth ar staff sy’n dyddio nôl ymhellach na 120 diwrnod, gall y Chwiliad Gweithgaredd yn myadmin.aber.ac.uk ddarparu gwybodaeth ynghylch a yw myfyriwr wedi clicio ar ddolen gyflwyno.

Noder, er y gall y wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol iawn, **nid yw pob problem dechnegol yn cael ei chofnodi gan y system**, ac efallai na fydd Chwiliad Gweithgaredd yn cofnodi yr holl broblemau posibl. Mae'r Chwiliad Gweithgaredd yn cofnodi beth mae myfyriwr wedi rhyngweithio ag ef ac amser a dyddiad y rhyngweithio hwnnw.

Mae'r Rheolwr Diogelu Data yn atgoffa adrannau y byddai gan fyfyrwyr hawl i weld canlyniadau Chwiliad Gweithgaredd fel arfer. Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Diogelu Data a gellir anfon pob ymholiad am yr agwedd hon ar y weithdrefn at infocompliance@aber.ac.uk

## Cyngor i Staff

Rydym yn argymell y canlynol i helpu myfyrwyr i ymgyfarwyddo a theimlo'n hyderus â'r broses gyflwyno:

- Trefnu cyflwyniad ‘ymarfer’ ar gyfer pob myfyriwr a chadarnhau bod yr holl ffeiliau wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus. Dylai unrhyw fyfyrwyr sydd â phroblemau gyda'r cyflwyniad ‘ymarfer’ gysylltu ag e-ddysgu@aber.ac.uk am gyngor.

- Dylai staff wirio mannau cyflwyno o fewn un (1) diwrnod ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio. Bydd hyn yn sicrhau y gellir adnabod unrhyw fyfyrwyr nad ydynt wedi cyflwyno gwaith cyn gynted â phosibl, ac y gellir gwirio unrhyw broblemau yn gyflym. Gall y Tîm Addysg Ddigidol (e-ddysgu@aber.ac.uk) gynghori staff ar ddulliau o adnabod myfyrwyr nad ydynt wedi cyflwyno.

# Cyngor i Fyfyrwyr

## Cyn cyflwyno

- Dechreuwch eich cyflwyniad mewn da bryd cyn y dyddiad cau, gan ganiatáu amser i ymdrin ag unrhyw broblemau technegol a allai godi.
- Cymerwch ran mewn unrhyw gyflwyniadau ‘ymarfer’, yn ddelfrydol gan ddefnyddio'r un cyfrifiadur a phorwr yr ydych chi’n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer eich cyflwyniad terfynol.
- Os ydych chi'n cael anawsterau wrth ddefnyddio dyfais bersonol, mae cyfrifiaduron prifysgol ar gael mewn lleoliadau amrywiol ar draws y campws.
- Edrychwch ar dudalen we Statws Prifysgol Aberystwyth i gael manylion am unrhyw broblemau TG a allai effeithio ar eich cyflwyniad. Os nad yw ein systemau'n gweithio'n iawn, mae trefniadau ar waith i gysylltu â myfyrwyr sydd â dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno.

## Ar ôl cyflwyno

- Gwiriwch ar unwaith bod eich gwaith wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus. Mae canllawiau ar gael yn yr ardal Asesu ac Adborth yn Blackboard a thrwy'r Cwestiynau Cyffredin Sut mae gwirio bod fy aseiniad wedi’i gyflwyno’n llwyddiannus?

## Os ydych chi'n cael trafferth

- Os nad yw'r dyddiad cau wedi mynd heibio, cysylltwch â'r Tîm Addysg Ddigidol (e-ddysgu@aber.ac.uk) a chyfeiriad e-bost eich adran cyn gynted â phosibl fel y gellir darparu cefnogaeth.
- Os yw'r dyddiad cau wedi mynd heibio, cysylltwch â chyfeiriad e-bost eich adran yn ddiymdroi i esbonio'r sefyllfa. Gallwch hefyd roi gwybod am y mater i'r Tîm Addysg Ddigidol (e-ddysgu@aber.ac.uk).

- Pan fo’n bosibl, rydym yn argymell eich bod yn cadw copïau o dderbynebau cyflwyno, negeseuon e-bost cadarnhau, a sgrinluniau o unrhyw negeseuon gwall, gan y gallai’r rhain fod yn ddefnyddiol wrth ymdrin ag ymholiad.

Mae'r wybodaeth hon ar gael i staff a myfyrwyr drwy Blackboard a'n Cwestiynau Cyffredin. Cynghorir adrannau hefyd i gynnwys y manylion yn eu llawlyfrau ar gyfer myfyrwyr.